**Fforwm Gweithredu Bioamrywiaeth Mamaliaid Cymru**
**Cofnodion y 8fed Cyfarfod**

2 Hydref 2012, tros gynhadledd fideo

**1. Croeso, cyflwyniadau**
**Yn bresennol**:
Bangor Liz Halliwell (CCGC - Cadeirydd), Jean Matthews (CCGC - Cofnodion), Ceri Morris, (CCGC – MISE)

Llandeilo Steve Lucas (YCY), Isabel Macho (Cyngor Sir Gâr), Jenny MacPherson (VWT – MISE), Lizzie Wilberforce (WTSWW)

**Ymddiheuriadau**: Rob Strachan (AyrA), Henry Schofield (VWT), Nida Al-Fulaij (PTES), Jane Garner (CCGC), Matthew Ellis (CCGC), Claire Bryant (CCGC), Ian Danby (BASC), Rob Parry (WTSWW), Kate Williamson (Cymdeithas y Mamaliaid), Sarah Bird (Sw Caer), Paul Sinnadurai (BBNP)

Diweddariadau sefydliadol
Disgwylir y cyhoeddiad o Gadeirydd ac enw'r Corff Sengl yn y cwpl o wythnosau nesaf. Adroddodd SL am drafodaeth yn WEL ynghylch cynnwys "cydbwyso" dyletswyddau rhwng bioamrywiaeth ac economeg.
Bydd y corff newydd yn weithredol o 1 Ebrill, ond bydd y newidiadau sylweddol yn raddol dros y flwyddyn neu ddwy nesaf. Bydd y corff newydd yn cynnwys holl swyddogaethau trwyddedu LlC ar wahân i drwyddedu moch daear, y mae LlC yn ymdrin ag ef ar hyn o bryd.

**2. Diweddariad ar Brosesau CGB**
Nid yw'r Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau wedi cwrdd ers tipyn. Canslwyd y cyfarfod ym mis Gorffennaf ac mae'r un nesaf wedi'i amserlennu ar gyfer mis Tachwedd.
Grant ERD LlC: roedd Prosiect Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru'n llwyddiannus a derbyniodd y Fenter Ceirw ariannu rhannol ar gyfer prosiect i fonitro ceirw yn Nyffryn Elwy a datblygu cynllun rheoli.
**PWYNT GWEITHREDU 1 - Liz i anfon rhestr o'r prosiectau a ariannwyd allan i'r grŵp**

Mae adolygiad o broses CGB Cymru'n mynd yn ei flaen ar hyn o bryd.
Mae rhai grwpiau CGBLl wedi gwahodd cadeiryddion y Grŵp Ecosystemau i ddod i siarad â nhw yn y cyfarfod ac maent i'w weld yn weithredol.

Gweithdy Bylchau mewn Tystiolaeth Mae pob un o'r Grwpiau Ecosystemau wedi adrodd ar fylchau mewn tystiolaeth ac mae'r wybodaeth wedi cael ei thrafod mewn gweithdy gydag academyddion. Mae profforma newydd ar gyfer prosiectau'n cael ei ddatblygu gan Tracey Lovering. Bydd papur drafft ar y gweithdy gyda chynigion ar gyfer prosiectau'n cael ei gylchredeg pan fydd ar gael. Mae angen gwirio a yw'r blaenoriaethau FfGBMC wedi'u cynnwys yn y broses.

**Cymru Fyw –** dylai canlyniadau'r ymgynghoriad fod wedi'u cyhoeddi erbyn hyn. Roedd y Gynhadledd PBC yn cynnwys rhai sgyrsiau astudiaeth achos da.

**Adrodd Erthygl 17 –** bydd adroddiadau'n cael eu cydlynu gan y JNCC a'u hanfon allan ar gyfer ymgynghori. Yn cymryd llawer o amser staff CCGC, gyda llawer o waith yn cael ei wneud ar goladu a didoli data.

**Arian grant i Famaliaid PTES –** cylchredwyd blaenoriaethau newydd ar gyfer eu hariannu. Gwirio'r rhain os ydych yn ystyried ymgeisio am ariannu.

**Diweddariad Grŵp Llywio Llygod y Dŵr y DU**
**Prosiect cronfa ddata a mapio**
Mae cronfa ddata'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt wedi'i ddiweddaru. Nododd y grŵp fod y gronfa ddata'n adnodd pwysig a bod y mapiau rhybudd yn ddefnyddiol, yn enwedig at ddibenion cynllunio. Roedd data ar finc a dyfrgwn wedi'i gynnwys. Byddai diweddariadau'n cael eu cynhyrchu ar gyfer CCGC a SNH. Roedd Derek Gow wedi cynhyrchu rhestr o safleoedd ailgyflwyno a byddai'r rhain yn cael eu mapio.
**Ffensys glannau afon**
Adroddodd Rob Strachan ar broblemau'n gysylltiedig â thwf Balsam Himalaiaidd a defnyddio ffensys glannau afon i amddiffyn glannau afonydd a nentydd rhag potsian da byw a phori dwys. Adroddwyd yr oedd gwahardd pori yn y sefyllfaoedd hyn wedi arwain ar ordyfiant o Falsam Himalaiaidd a gysgododd orchudd daear ac a giliodd yn y gaeaf gan adael daear sydd i bob pwrpas yn foel. Creodd hyn amgylchiadau anaddas ar gyfer llygod y dŵr, er y gallai'r ffensys gwreiddiol fod wedi'u gosod gyda'r bwriad o fod o fudd i'r rhywogaeth. RS i roi cyngor technegol a gwirio rhagnodiadau'r cynllun amgylcheddol-amaethyddol
**Llygod y dŵr cloddiol Glasgow** Adroddodd Rob Raynor ar boblogaethau llygod y dŵr yn ardal Glasgow yn byw mewn glaswelltir garw cyfagos at dai ac yn bell i ffwrdd o ddyfrffyrdd. Gan yr oedd y boblogaeth mor ddwys roedd risg y byddai llygod y dŵr yn mynd yn bla mewn rhai gerddi. Cafwyd rhai cofnodion o lygod y dŵr mewn ardaloedd nad ydynt yn wlypdir yn Lloegr ond roedd y boblogaeth yn Glasgow i'w gweld yn arbennig o ddwys.
**Datganiad ar Drawsleoli –** roedd datganiad drafft wedi'i baratoi yn 2003 gan *The Wildlife*. Cytunwyd y byddai'n werthfawr i hyn gael ei gadarnhau gan y Grŵp Llywio.

**PWYNT GWEITHREDU 2 –** JM i anfon nodyn allan ar y cyfarfod UKWVSG (nodiadau uchod)
**PWYNT GWEITHREDU 3 –** Lizzie i wirio gyda Rob a yw'r cofnodion llygod y dŵr diweddaraf wedi'u cynnwys yn y prosiect mapio.

**3. Diweddariadau prosiectau/partneriaid**
Diweddariadau wedi'u cyflwyno a'u cylchredeg, ond mae mwy i'w ychwanegu. Bydd fersiwn terfynol yn cael ei anfon allan i'w gylchredeg i'r Grŵp ac i'w drosglwyddo i CGBLl.
**PWYNT GWEITHREDU 4** - CCGC i ofyn am gynrychiolydd CGBLl ar gyfer Gogledd Cymru.
**PWYNT GWEITHREDU 5** - CCGC i gylchredeg diweddariad partneriaid terfynol

**4. Cynlluniau Gweithredu CGB**
Dywedodd PBC y byddai'n eu cylchredeg i CGBLl, ond peidio â'u rhoi ar y wefan nes eu bod wedi'u cwblhau.
a) Rôl Arweinwyr Rhywogaethau wrth adrodd ar/annog gweithredu.

Mae llawer o'r camau gweithredu ar lefel eithaf uchel. Byddai'n ddefnyddiol cael mwy o gefnogaeth gan GARh wrth bennu Rôl Arweinwyr Rhywogaethau. Awgrymodd LH gynnal trafodaethau gydag Arweinwyr Gweithredu, ond efallai na fydd yn ddichonol ar gyfer pob arweinydd. Mae anhawster hefyd gyda chamau gweithredu LlC gan nad oed person a enwir.

Gallai fod yn werth cynnal cyfarfod o Arweinwyr Rhywogaethau ac Arweinwyr Gweithredu.
**PWYNT GWEITHREDU 6 –** LH/JM i fynd yn ôl at Julia/Tracey cyn cyfarfod Cadeiryddion y Grŵp Ecosystemau ac ailystyried sut i fwrw 'mlaen gyda hwn.

b) Sut i helpu CGBLl i ddefnyddio Cynlluniau Gweithredu CGB. Dylai Cynlluniau Cenedlaethol helpu i ddarparu cyd-destun.

IM – mae tuedd i weithio mewn ffordd fanteisgar pan fydd ariannu ar gael. Nodwyd hefyd fod yn rhaid ail-wneud y Cynllun Gweithredu ar BARS 2 ar hyn o bryd.

Syniad SL i ysgrifennu cynlluniau ar gyfer CGBLl i bob pwrpas. Mae IM wedi gwahodd cadeiryddion Ecosystemau a gweld bod cyfarfodydd lleol yn ddefnyddiol o ran adnabod prosiectau a blaenoriaethu. Gellid gweithio ar lefel ranbarthol, ond mae'n anodd cyrraedd cyfarfodydd ac nid oes gan bob un drefniadaeth ranbarthol.

**PWYNT GWEITHREDU 6 –** Ceri i wirio a oes Fforwm Gogledd Cymru.

**5. Prosiectau â blaenoriaeth a chyfleoedd ariannu**
**Draenogod –** MS yn cyflwyno arolwg twneli draenogod y flwyddyn nesaf. Codi ymwybyddiaeth CGBLl.
**Pathewod –** Ceredigion wedi'i blaenoriaethu. Cynllun monitro arall yng Ngogledd Ceredigion. Tiwbiau carlymod wedi codi pathewod, yn aros am fwy o ganlyniadau. Bydd llawer o'r gweithredu'n cael ei gyflwyno trwy'r prosiect MISE. Diwrnod Gweithwyr Pathewod Cymru ar 17 Tachwedd bellach yn llawn.
**Llygod y dŵr** – gweler y diweddariad gan CCGC parthed cofnodion. Bydd peth gwybodaeth yn dod allan mewn papurau a adolygir gan gymheiriaid pan fydd y data ar gael gan LlC - cysylltu â BASC.
**Ystlumod Coetir Prin –** gweler y diweddariad. Mae angen penderfynu ar flaenoriaeth ar gyfer arian eleni - offer neu ddeunyddiau arweiniad, hyfforddiant.
**YPLl –** gweler y diweddariad - gweithdy a/neu gontract ar gyfer rhywun i ddatblygu prosiectau ar raddfa lai
**Llygod y cynhaeaf –** yn treialu potiau abwyd, ond dim canlyniadau Ll y C hyd yma. Yn cael ei dreialu yn Sw Caer drws nesaf i nythod Ll y C i wirio a yw'r dull hwn yn gweithio.
WTs - myfyriwr yn cymharu dulliau maglu llygod y cynhaeaf. Llygod mawr wedi difetha maglau baglu. Mae Ll y C ym Mharc Slip a gwelir tystiolaeth o drefn bigo mamaliaid bach ar faglau â chamera fideo, ond nid ydynt yn dal Ll y C mewn gorsafoedd abwyd. Byddai'n ddefnyddiol cael cyfarfod o bobl sy'n gweithio ar Ll y C.
**PWYNT GWEITHREDU 7** - Ceri i sefydlu cynhadledd fideo llygod y cynhaeaf.

**Dyfrgwn –** gwaith DNA baw dyfrgwn yn cael ei ddatblygu trwy MISE

**Gwiwerod coch –** llwyddodd prosiect gwiwerod coch canolbarth Cymru i dderbyn ariannu ERD LlC (sy'n cyflawni blaenoriaeth prosiect gwiwerod coch FfGBMC). Cyfarfod o Fforwm Gwiwerod Cymru wedi'i ohirio tan fis Chwefror.

**Ystlumod –** trafodaeth ynghylch cofnod o ystlumod clustiog llwyd yn Sir Benfro. Awgrymir bod angen hyfforddiant adnabyddiaeth gwella a dadansoddiad DNA pellach o faw.

**6. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a phwyntiau gweithredu**
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar y cofnodion.

**Pwynt Gweithredu 1** - *Jean a Liz i ddosbarthu dolenni i adroddiadau ac arweiniad Erthygl 17.* Wedi'i wneud.
**Pwynt Gweithredu 2** - *Steve i gysylltu â Kate yn YCY i sefydlu ei rôl wrth goladu data ar gyfer yr adroddiadau Erthygl 17.*
Gan Kate yn YCY - Ni ofynnwyd i ni wneud llawer ar gyfer Adrodd Erthygl 17. Penderfynodd JNCC i ofyn i asiantaethau'r gwledydd am ddata cofnodion rhywogaethau ac ymddengys eu bod yn seilio mapiau dosbarthiad ar wybodaeth sydd eisoes yn bodoli o ddata sydd ar y NBN ac yn defnyddio'r offeryn 'alpha hull' (fel y tro diwethaf) i fapio amrediadau. Rydym wedi darparu data tueddiadau o'r NBMP ar gyfer gwybodaeth tueddiadau poblogaeth i JNCC.
**Pwynt Gweithredu 3 –** *PAWB i anfon diweddariadau partner cgaph os nad ydynt eisoes wedi'i wneud.* Wedi'i wneud
**Pwynt Gweithredu 4 –** *Steve i adnabod pwy sy'n gyfrifol am roi camau gweithredu o gynlluniau mamaliaid Cymru ar BARS - partneriaid arweiniol neu CGBLl sy'n rhoi'r cynlluniau ar waith.*
Mae hyn yn aneglur o hyd. Cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol cael peth arweiniad gan PBC ynghylch sut yr hoffai iddynt gael ei strwythuro a'u cysylltu â mudiadau eraill; er enghraifft, a yw'n werth cael FfGBMC yno fel mudiad (neu riant-brosiect) y gall cynlluniau gweithredu'r rhywogaethau gael eu lleoli oddi tanynt, fel eu bod wedi'u cysylltu â'i gilydd.
**Pwynt Gweithredu 5 –** *POB partner arweiniol arall i orffen cynlluniau gweithredu mor bell â phosib yn barod i gael eu cyhoeddi*. Parhaus.
**Pwynt Gweithredu 6 –** *JM/LHa i gael gwybod gan PBC ble mae cynlluniau'n debygol o gael eu cyhoeddi.*
Anfonwyd pob cynllun gweithredu ystlumod i ysgrifenyddiaeth PBC ond gwnaethant benderfynu peidio â'u 'cyhoeddi' gan eu bod yn destun newidiadau pellach yn ystod yr adolygiad. Fodd bynnag, maent wedi'u hanfon i bartneriaethau CGBLl.
**Pwynt gweithredu 7** - *JM i ddrafftio cynnig am brosiect ystlumod coetir prin a dosbarthu i SL a HS.* Parhaus. Gweler y diweddariad gan CCGC
**Pwynt Gweithredu 8 –** *HS i siarad â Jenny Macpherson am waith arolwg llygod y cynhaeaf ym Mhowys a De-ddwyrain Cymru. Mae potensial iddi gynnig peth hyfforddiant/mynd ar ymweliadau yn Abertawe.*
Trafodwyd mewn cyfarfodydd y prosiect MISE
**Pwynt Gweithredu 9 –** *LH i ystyried cyfathrebiadau gyda gweithwyr mamaliaid Powys a De-ddwyrain Cymru i'w hannog i wneud arolygon llygod y cynhaeaf.* Parhaus. CCGC yn bwriadu gosod contract mapio cynefinoedd i adnabod cynefin a allai fod yn addas ar gyfer llygod y cynhaeaf, cyn annog arolwg yn 2013.
**Pwynt Gweithredu 10 –** *Jenny, Jean a Rob i drafod prosiect geneteg llygod y dŵr yn MISE.* Cario drosodd. **PWYNT GWEITHREDU 8 NEWYDD**
**Pwynt Gweithredu 11 –** *KW i sicrhau bod monitro draenogod CyM yn cael ei adlewyrchu yn y cynllun gweithredu*
**Pwynt Gweithredu 12 –** *Steve i fwydo'n ôl i GARh bod prosiectau'n canolbwyntio ar ecosystemau ac nad ydynt yn cyflwyno nac yn darparu cyfleoedd ar gyfer rhywogaethau.*

Nid yw'r Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau wedi cwrdd.
**Pwynt Gweithredu 13 –** *Liz a Jean i gysylltu â Kate am ddiweddariad ar yr Atlas Mamaliaid.*
Cario drosodd. **PWYNT GWEITHREDU 9 NEWYDD**
**Pwynt Gweithredu 14** - *Steve i gylchredeg nodyn y mae wedi'i dderbyn gan PBC mewn perthynas â chynlluniau peilot FfAN.* Nid oes ei angen mwyach
**Pwynt Gweithredu 15** - *Steve i godi'r angen am gofnodion o ystlumod mawr yn y Diwrnod Gweithwyr Ystlumod.*
Wedi'i wneud - wedi derbyn nifer o gofnodion ond dim ond o nifer bach o grwpiau ystlumod
**Pwynt Gweithredu 16 –** *Jean a Liz i gylchredeg canlyniadau coladu data ar gyfer llygod medi etc mor fuan ag y maent ar gael.*
Byddant ar gael yn fuan yn dilyn cwblhau adroddiadau Erthygl 17. **PWYNT GWEITHREDU 10 NEWYDD**

**7. Unrhyw fusnes arall**
Grŵp Mamaliaid Cymru – mae Rod Gritten wedi ysgrifennu at aelodau GMC yn mynegi pryderon am yr hyd sydd i'w weld yn natur 'marwaidd' presennol y grŵp. Mae'n teimlo bod angen gwneud penderfyniad ar ddyfodol y grŵp a beth i'w wneud gydag arian y grŵp. Er nad yw'n benderfyniad i FfGBMC ystyriwyd ei fod yn werthfawr i gywain barn y grŵp. Cafwyd consensws cyffredinol yr oedd GMC wedi perfformio swyddogaeth ddefnyddiol, yn bennaf trwy drefnu cynadleddau mamaliaid Cymru ond bod prosiectau eraill yn ymgymryd â'r rôl hon bellach (e.e. y prosiect MISE). Nodwyd bod y Gymdeithas Famaliaid yn ymgeisio i CCGC am arian grant ar gyfer Swyddog Mamaliaid i Gymru i ddarparu cefnogaeth ar gyfer cofnodi mamaliaid yng Nghymru a'u rôl fel partner arweiniol o ran llygod y cynhaeaf a draenogod. Petai'r cais hwn yn llwyddiannus, cytunwyd y gallai GMC gyfrannu tuag at yr arian cyfatebol y bydd ei angen.

Glastir – SL yn cyflawni ymarfer dadansoddi bylchau a buddion o ofynion rheoli ar gyfer ystlumod. Mae Wildlife Link wedi gofyn am ddiweddariad gan LlC. Nid yw'r enw a roddir i'r Elfen a Dargedir yn Glastir Advanced.
**PWYNT GWEITHREDU 11 –** SL i anfon taenlen dadansoddiad bylchau Glastir at Jean

Adolygiad Cymdeithas y Gyfraith o ddeddfwriaeth bywyd gwyllt – mae ymgynghori ar gynigion Cymdeithas y Gyfraith bellach yn mynd yn ei flaen a bydd yn cau ar 30 Tachwedd. Y nod yw cydgrynhoi'r Deddfau amrywiol mewn un darn o ddeddfwriaeth. Maent hefyd yn awyddus i ddychwelyd i'r geiriad gwreiddiol yn y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac awgrymu na fydd arweiniad statudol ar ddehongli troseddau o reidrwydd yn angenrheidiol.

**8. Dyddiad y cyfarfod nesaf**
Cytunwyd bod defnyddio fideo-gynadledda'n iawn a'i fod yn gwneud bod yn bresennol yn haws i rai o aelodau'r grŵp.

Pennwyd dyddiadau ar gyfer y tri chyfarfod nesaf: **27 Chwefror, 25 Mehefin ac 8 Hydref**